PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 18 EBRILL 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Owen Jones, Mackie, McKerlich a/ac Murphy |

124 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Cunnah.

125 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau a Deddf Llywodraeth Leol 1972:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Bowen-Thompson | Eitem 3 | Yn byw yn Ward Y Mynydd Bychan |
| Y Cynghorydd Mackie | Eitem 3 | Aelod Ward ar gyfer Cathays |

126 : GALW PENDERFYNIAD SWYDDOG I MEWN SED/PR/29303: GWAREDU CAGC HEOL WEDAL, CATHAYS, CAERDYDD. ADRODDIAD CYFARWYDDWR DATBLYGU ECONOMAIDD.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Goodway (Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu), Neil Hanratty (Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu) a Helen Thomas (Rheolwr Ystadau Strategol) i'r cyfarfod.

***Cynigiodd y Cadeirydd wneud y drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon yn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.***

PENDERFYNWYD –

(1) Cyfeirio Penderfyniad Swyddog SED/PR/29303 yn ôl ar y swyddog penderfynu yn unol â'r weithdrefn Galw i Mewn.

(2) Y Cadeirydd i ysgrifennu at y swyddog penderfynu er mwyn trosglwyddo sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor.

(3) Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar wahân i werthuso pa mor addas yw gweithdrefnau a phrotocolau'r Cyngor o ran gwerthuso asedau i'w gwaredu.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm